

*Cyflwynir yr adroddiad hwn i gydymffurfio gyda safonau 152, 158 a 164 Hysbysiad Cydymffurfio Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd i'r Tribiwnlys Priso gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 6 Tachwedd 2017. Mae'n cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2017 tan 31 Mawrth 2018.*

### **Cyhoeddi gwreiddiol ac amrywio dilynol yr Hysbysiad Cydymffurfio**

1. Cyflwynwyd Hysbysiad Cydymffurfio gwreiddiol y Tribiwnlys ar 30 Medi 2016 gyda dyddiad gweithredol ar gyfer yr holl safonau a gynhwyswyd ynddo (ac eithrio rhifau 99 i 103, 122 a 145) sef 30 Mawrth 2017. Cafodd y dyddiad gweithredol ar gyfer y safonau wedi'u heithrio a nodwyd ei bennu fel 30 Medi 2017.
2. Yn dilyn heriau gan y Tribiwnlys, gwnaeth y Comisiynydd amrywio'r Hysbysiad Cydymffurfio gwreiddiol trwy ddiddymu safonau 64 a 67 yn gyfangwbl a diddymu'r cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol yn erbyn safonau 65 a 65A. Gwnaeth y Comisiynydd ei phenderfyniad ar 6 Tachwedd 2017. Mae copi o'r Hysbysiad Cydymffurfio terfynol i'w weld ar wefan y Tribiwnlys.

### **Sut mae'r Tribiwnlys wedi cydymffurfio gyda'r gwahanol safonau sy'n berthnasol iddo**

3. Mae'r safonau isod yn berthnasol i'r Tribiwnlys:
  - Safonau cyflenwi gwasanaethau
  - Safonau llunio polisi
  - Safonau gweithredu
  - Safonau cadw cofnodion

#### *Safonau cyflenwi gwasanaethau*

4. Mae'r Tribiwnlys wedi cydymffurfio â'r holl safonau cyflenwi gwasanaethau a oedd yn berthnasol iddo. Roedd llawer o nodweddion wedi eu trosglwyddo o'n hymrwymiaidau perfformiad a oedd yn ofynnol dan ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol, yn cynnwys cyfarchion dwyieithog, a gwasanaeth derbynfa, gohebiaeth a gwrandawiaidau tribiwnlys yn Gymraeg i ddefnyddwyr y gwasanaeth, yr holl daflenni gwybodaeth ac arweiniad ar gael yn Gymraeg a Saesneg, arwyddion dwyieithog a gwefan gwbl ddwyieithog. Mae'r troednodyn ar lythyrau, hysbysiaidau'r tribiwnlys a gohebiaeth e-bost yn pwysleisio y croesewir defnyddio'r Gymraeg ac na fydd defnyddio'r iaith yn arwain at oedi cyn cyflenwi gwasanaeth. Yn ychwanegol, anfonir cerdyn post yn dangos y logo swigen sgwrs Cymraeg gyda hysbysiad ffurfiol y Tribiwnlys yn *cydnabod derbyn apêl*. Mae'r rhain yn ddwyieithog ac yn annog defnyddio'r Gymraeg gan y rhai nad oeddynt wedi cysylltu gyda ni yn Gymraeg yn wreiddiol ond a allai ddymuno newid i ddefnyddio'r iaith am weddill y broses apêl. Diweddarwyd nifer o arwyddion yn ystod y flwyddyn i'w gwneud yn ddwyieithog neu i roi'r Gymraeg yn fwyaf amlwg.

### *Safonau llunio polisi*

5. Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys (corff llywodraethu Tribiwnlys Prasio Cymru) sy'n gyfrifol am lunio polisiâu. Mae'r Cyngor Llywodraethu yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad pob polisi newydd a diwygio'r rhai cyfredol ystyried effaith y polisiâu eu hunain ar ddefnydd y Gymraeg a'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Ychwanegwyd atodiad sy'n nodi ystyriaethau'r Gymraeg y mae'r Cyngor Llywodraethu wedi eu hystyried at yr holl bolisiâu a ddatblygwyd neu a adolygwyd eleni, fel ei bod yn glir y cyflawnwyd asesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Nid oes unrhyw bolisiâu newydd na pholisiâu diwygiedig wedi cael effaith andwyol ar ddefnydd y Gymraeg.

### *Safonau gweithredu*

6. Nodwyd dewis iaith yr holl staff ac aelodau yng nghyswllt y safonau gweithredu perthnasol yn fuan cyn dechrau'r flwyddyn, a'u cofnodi. Gwnaeth dau aelod o staff (o 20) a 25 o aelodau'r tribiwnlys (o 138) ddewis y Gymraeg ar gyfer yr holl safonau perthnasol. Penodwyd un aelod staff newydd yn ystod y flwyddyn, a chofnodi'r dewis iaith wedi hynny. Ni chafodd aelodau tribiwnlys newydd eu recriwtio yn ystod y flwyddyn, felly nid oedd yn ofynnol diweddarau'r cofnodion dewis iaith.
7. Parhaodd meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg fod yn rhan safonol o orsaf waith yr holl aelodau staff.
8. Wrth asesu sgiliau Cymraeg yr holl staff, nodwyd bod pedwar yn gwbl hyfedr a dau bron yn gwbl hyfedr ar ddechrau'r flwyddyn; fodd bynnag, gwnaeth nifer y rhai cwbl hyfedr leihau yn ystod y flwyddyn oherwydd gostyngiad yn nifer y staff yn y sefydliad.
9. Roedd hyfforddiant sgiliau Cymraeg yn cael ei gynnig yn barhaus i'r holl aelodau staff a oedd yn dymuno manteisio ar hynny. Yn ystod y flwyddyn caniatwyd i chwe aelod o staff gael eu rhyddhau o'u hamser gwaith i fynd ar gyrsiau hyfforddiant Cymraeg.
10. Cafodd llofnod e-bost safonol y sefydliad i'r holl staff ei addasu i ddangos p'un ai yw'r anfonydd yn siaradwr Cymraeg neu'n dysgu'r iaith.
11. Mae bathodynau a/neu linyddau gwddf priodol ar gael i staff sy'n siarad Cymraeg ac anogir y staff hyn i'w defnyddio.
12. Hysbysebwyd un swydd newydd yn ystod y flwyddyn (yn y Gymraeg a'r Saesneg), a chroesawyd ceisiadau yn unrhyw iaith. Aseswyd y swydd fel un Cymraeg yn hanfodol at lefel sgiliau 2 (sylfaenol) Tribiwnlys Prasio Cymru.

### *Safonau cadw cofnodion*

13. Mae'r Tribiwnlys wedi cadw'r cofnodion y mae'n ofynnol iddo eu cadw dan y safonau sy'n berthnasol iddo. Dangosir y cofnodion am y flwyddyn yn Atodiad A.

## SAFONAU'R GYMRAEG – COFNODION GOFYNNOL

Rhif y Safon	Gofyniad	Canlyniad diwedd y flwyddyn												
140	Nifer y cwynion yn ymwneud â chydymffurfio â'r safonau	Dim												
141	A gafodd copïau o gwynion ysgrifenedig ynghylch cydymffurfio â'r safonau eu cadw?	Nid oedd unrhyw gwynion ysgrifenedig, ac felly nid oes unrhyw ddogfennau wedi'u cadw.												
142	A gafodd copïau o gwynion ysgrifenedig eraill yn ymwneud â'r Gymraeg eu cadw?	Nid oedd unrhyw gwynion ysgrifenedig eraill, ac felly nid oes unrhyw ddogfennau wedi'u cadw.												
143	A oes cofnod o'r camau a gymerwyd i sicrhau cydymffurfio gyda'r safonau llunio polisi?	Oes. Cedwir cofnod mewn atodiad ar ddiwedd pob polisi newydd neu ddiwygiedig.												
144	Nifer y staff â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd y flwyddyn (ac, os cofnodir hynny, y lefel sgiliau perthnasol)	<table> <tr> <td>2 cwbl hyfedr</td> <td><i>TPC lefel 5</i></td> </tr> <tr> <td>1 lefel uchel</td> <td><i>TPC lefel 4</i></td> </tr> <tr> <td>1 sgysiol da</td> <td><i>TPC lefel 3</i></td> </tr> <tr> <td>7 sylfaenol</td> <td><i>TPC lefel 2</i></td> </tr> <tr> <td>4 isel iawn neu ddim</td> <td><i>TPC lefel 1</i></td> </tr> </table>	2 cwbl hyfedr	<i>TPC lefel 5</i>	1 lefel uchel	<i>TPC lefel 4</i>	1 sgysiol da	<i>TPC lefel 3</i>	7 sylfaenol	<i>TPC lefel 2</i>	4 isel iawn neu ddim	<i>TPC lefel 1</i>		
2 cwbl hyfedr	<i>TPC lefel 5</i>													
1 lefel uchel	<i>TPC lefel 4</i>													
1 sgysiol da	<i>TPC lefel 3</i>													
7 sylfaenol	<i>TPC lefel 2</i>													
4 isel iawn neu ddim	<i>TPC lefel 1</i>													
145	Nifer (a chanran) y staff sydd wedi mynychu hyfforddiant o ran y Gymraeg yn y meysydd isod: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Recriwtio a chyfweld</li> <li>• Rheoli perfformiad</li> <li>• Cwynion a gweithdrefnau disgyblu</li> <li>• Cynefino</li> <li>• Ymdrin â'r cyhoedd</li> <li>• Iechyd a diogelwch</li> </ul>	<table> <tr> <td>Recriwtio a chyfweld</td> <td>Dim (0%)</td> </tr> <tr> <td>Rheoli perfformiad</td> <td>Dim (0%)</td> </tr> <tr> <td>Cwynion a gweithdrefnau disgyblu</td> <td>Dim (0%)</td> </tr> <tr> <td>Cynefino</td> <td>Dim (0%)</td> </tr> <tr> <td>Ymdrin â'r cyhoedd</td> <td>Dim (0%)</td> </tr> <tr> <td>Iechyd a diogelwch</td> <td>Dim (0%)</td> </tr> </table>	Recriwtio a chyfweld	Dim (0%)	Rheoli perfformiad	Dim (0%)	Cwynion a gweithdrefnau disgyblu	Dim (0%)	Cynefino	Dim (0%)	Ymdrin â'r cyhoedd	Dim (0%)	Iechyd a diogelwch	Dim (0%)
Recriwtio a chyfweld	Dim (0%)													
Rheoli perfformiad	Dim (0%)													
Cwynion a gweithdrefnau disgyblu	Dim (0%)													
Cynefino	Dim (0%)													
Ymdrin â'r cyhoedd	Dim (0%)													
Iechyd a diogelwch	Dim (0%)													
147	Nifer y swyddi a hysbysebwyd eleni? A gafodd copi o asesiad y sgiliau Cymraeg gofynnol ar gyfer y swydd(i) ei gadw?	Un Do (ym manyleb yr unigolyn – ac yn gysylltiedig â dogfen lefelau sgiliau Cymraeg TPC)												
148	Nifer y swyddi a hysbysebwyd wedi eu categoreiddio fel: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sgiliau Cymraeg yn hanfodol</li> <li>• Angen dysgu sgiliau Cymraeg</li> <li>• Sgiliau Cymraeg yn ddymunol</li> <li>• Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol</li> </ul>	<table> <tr> <td>1</td> <td>Sgiliau Cymraeg yn hanfodol (TPC lefel 2)</td> </tr> <tr> <td>0</td> <td>Angen dysgu sgiliau Cymraeg</td> </tr> <tr> <td>0</td> <td>Sgiliau Cymraeg yn ddymunol</td> </tr> <tr> <td>0</td> <td>Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol</td> </tr> </table>	1	Sgiliau Cymraeg yn hanfodol (TPC lefel 2)	0	Angen dysgu sgiliau Cymraeg	0	Sgiliau Cymraeg yn ddymunol	0	Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol				
1	Sgiliau Cymraeg yn hanfodol (TPC lefel 2)													
0	Angen dysgu sgiliau Cymraeg													
0	Sgiliau Cymraeg yn ddymunol													
0	Nid yw sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol													